

Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol

Plant Dewi

DISGRIFIAD SWYDD

1. TEITL Y SWYDD Gweithiwr Prosiect Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion
LLEOLIAD GWAITH Caerfyrddin

2. SAFLE YN Y SEFYDLIAD

Cadeirydd Grŵp Rheoli Plant Dewi

Rheolwr Prosiect

Gweithiwr Prosiect

3. CYNWYS Y SWYDD

Mae'r Tîm Esgobaethol yn rhan o genhadaeth Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol i hyrwyddo newid cymdeithasol, ac mae ganddo friff i ymateb i anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

4. CYDBERTHNASAU GWAITH

Mewnol

Gweithio fel rhan o dîm

Allanol

Cyswllt rheolaidd â'r glerigaeth, adrannau awdurdod lleol/statudol perthnasol, asiantaethau eraill, prosiectau a grwpiau sy'n cyflawni gwaith neu weithgareddau tebyg yn yr ardal leol.

5. PRIF DDIBEN Y SWYDD

Bydd y Gweithiwr Prosiect yn cefnogi canolfannau teulu o fewn Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion i gynnig cymorth proffesiynol er mwyn sicrhau bod canolfannau teulu yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant. Bydd yn cefnogi Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion i gynnig gwasanaeth o ansawdd sy'n atgyfnerthu ac yn meithrin sgiliau teuluoedd sy'n mynychu'r canolfannau teulu. Bydd y Gweithiwr Prosiect hefyd yn gweithredu fel Brocer Trydydd Sector ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

6. TASGAU ALLWEDDOL

Bod yn rhan allweddol o Dîm Plant Dewi.

Bod yn rhan allweddol o raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Ceredigion.

Cefnogi Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion i gynnig gwasanaeth o ansawdd sy'n atgyfnerthu ac yn meithrin sgiliau teuluoedd sy'n mynychu'r canolfannau teulu.

Hybu canllawiau Llywodraeth Cymru 'Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth' fel yr arfer gorau o ran darparu cefnogaeth i rieni o fewn y canolfannau.

Nodi safle'r Rhwydwaith Canolfannau Teulu a llwybrau cyfeirio o fewn rhwydwaith strategol Ceredigion o gymorth teuluol, a chyfrannu at y 'Continwmm o Angen (Cymorth Teulol)'

Cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yng Ngheredigion.

Sicrhau bod y canlynol yn cael eu cynnig yng Nghanolffannau Teulu Ceredigion:

- Rhaglenni rhianta strwythuredig seiliedig ar dystiolaeth
- Cefnogaeth magu plant wedi'i strwythuro'n anffurfiol
- Cymorth galw heibio anffurfiol
- Cyrsiau achrededig eraill lle nodir angen.

I gefnogi'r defnydd o JAFF a chyfrannu at y broses Tîm o Amgylch y Teulu (TAT).

Datblygu rôl y Brocer Trydydd Sector yng Ngheredigion gan ddarparu gwybodaeth am sefydliadau trydydd sector i TAT.

Cefnogi'r canolfannau teulu o ddydd i ddydd:

Datblygu cynlluniau ariannol a busnes gyda Chydlynwyr a Phwyllgorau Rheoli
Sicrhau bod amcanion ariannu yn cael eu cyflawni, fel y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG).

Sicrhau bod y canolfannau teulu'n cynnig tystiolaeth o'u gwaith yn unol â gofynion gwerthuso'r CLG.

Gwerthuso'r gwaith sy'n cael ei wneud yn erbyn targedau a nodir.

Sicrhau bod y canolfannau teulu yn gweithredu ac yn cyfrannu at fframwaith arferion a safonau'r canolfannau teulu o ddydd i ddydd, ac yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Sicrhau bod cydlynwyr y canolfannau teulu yn mynychu ac yn cyfrannu'n rheolaidd at waith y rhwydwaith canolfannau teulu ac yn gweithredu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Sicrhau bod staff canolfannau teulu'n cymryd rhan mewn hyfforddiant parhaus.

Cynnig cymorth un-i-un i Gydlynwyr y canolfannau teulu i sicrhau y gallant ddarparu canolfannau teulu diogel a chynaliadwy a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd.

Darparu cefnogaeth i'r Pwyllgorau Rheoli er mwyn sicrhau arfer gorau o fewn yr elusennau unigol

Cadw cofnodion o waith sy'n cael ei wneud at ddibenion asiantaethau ariannu a Phlant Dewi.

Cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi yn ôl yr angen.

Helpu'r tîm i weithredu ei gynllun Cyfle Cyfartal a Gwrth-wahaniaethu.

7. AMODAU GWAITH

Rhwyfaint o waith gyda'r nos/ar y penwythnos/yn ystod oriau anghymdeithasol (yn ôl yr angen). Rhaid i staff fod yn gyffyrddus yn gweithio mewn cyd-destun Cristnogol clir.

8. CYMWYSTERAU A PHROFIAD

Cymhwyster perthnasol mewn Addysg, Iechyd, Gwaith Cymunedol neu Waith Cymdeithasol neu brofiad sylweddol yn y maes. Profiad o dechnegau datblygu cymunedau. Byddai'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl o fantais. Y gallu i adeiladu cydberthnasau gwaith da ag amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys y Glerigaeth a gweithwyr proffesiynol eraill.

